**<u>Y Pwyllgor Diwylliant CC-11-02(p.3)</u>**

**Dyddiad:** 29 Mai 2002

**Amser:** 9.00 - 12.30pm

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

## CYFRANIAD DRAFFT I ADRODDIAD GWEINIDOG Y CYNULLIAD DROS DDIWYLLIANT, CHWARAEON A'R GYMRAEG

***Strwythur Strategol ac Ymgynghorol ar gyfer Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai yng Nghymru: Papur Ymgynghori***

Gwnaed datganiad gennyf yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Ebrill i lansio'r broses ymgynghori hon, a thrafodwyd y papur gan y Pwyllgor ar 15 Mai.

Dosbarthwyd y papur ymgynghori yn eang i sefydliadau ac unigolion sy'n gysylltiedig ag amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifdai yng Nghymru, ac mae wedi'i drafod gan Cymru'n Creu. Mae ar gael hefyd ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae gofyn ymateb i'r ddogfen erbyn 28 Mehefin 2002.

***Lansio'r Hen Garchar, Rhuthun***

Lansiais yr Hen Garchar yn Rhuthun yn swyddogol ar 17 Mai o flaen cynulleidfa o fusnesau a chyrff diwylliannol lleol. Mae'r prosiect yn enghraifft ardderchog o fanteision gweithio mewn partneriaeth, gan ei fod wedi denu swm sylweddol, £1.3m, oddi wrth Gronfa Treftadaeth y Loteri, yn ogystal â chefnogaeth Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru. Erbyn hyn mae'r adeilad ar ei newydd wedd yn gartref i Swyddfa Cofnodion ac Archifau Sir Ddinbych, ac i atyniad newydd i ymwelwyr - 'Cawl o Brofiad'. Mae'r atyniad hwn, trwy raglenni addysgol pwrpasol, yn rhoi cyfle i bobl, yn enwedig pobl ifanc, flasu bywyd yn y carchar yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Bydd yr Hen Garchar yn ychwanegiad pwysig i atyniadau diwylliannol y Gogledd i dwristiaid.

***Mis Amgueddfeydd ac Orielau 2002***

Yn yr adroddiad diwethaf, hysbysais yr Aelodau ymlaen llaw am y rhaglen yng Nghymru i ddathlu Mis Amgueddfeydd ac Orielau 2002. Ar 9 Mai, ymwelais ag Amgueddfa Pont-y-pwl. Roedd y rhaglen yn cynnwys enghreifftiau o Wyliau Treftadaeth sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth am dreftadaeth Tor-faen, ynghyd â chyfres o weithdai yn dwyn sylw at yr hyn a gyflawnwyd gan blant ysgol lleol wrth ddarlunio agweddau ar dreftadaeth y Fwrdeistref.

Mae'n bleser cael dweud wrthych bod Ymddiriedolaeth Amgueddfa Tor-faen a Chyngor Bwrdeistref Tor-faen wedi cytuno ar gynllun peilot, a gyflwynwyd ar 9 Mai, ar gyfer mynediad di-dâl cyfyngedig i Amgueddfa Pont-y-pwl.

Hoffwn atgoffa'r Aelodau am gyfeiriad y wefan - www.May2002.org.uk am fanylion yr holl ddigwyddiadau. Trwy glicio ar 'events', 'map search' a 'Wales', gellir gweld beth sydd ymlaen yng Nghymru.

***'Cyfoeth Cymru Gyfan - Sharing the Treasures'***

Un o elfennau allweddol fy strategaeth ddiwylliant yw sicrhau bod ein casgliadau cenedlaethol o fewn cyrraedd i fwy o bobl. Mae'r Amgueddfa Genedlaethol eisoes yn rhoi nifer o eitemau o'i gasgliadau ar fenthyg i amgueddfeydd lleol, ond dim ond os yw'r lleoliadau'n bodloni safonau llym o ran diogelwch a'r amgylchedd y gall wneud hynny. Felly, rwyf wedi addo rhoi swm o £50,000 i uwchraddio cyfleusterau mewn amgueddfeydd ac orielau llai. Gofynnais i'r Amgueddfa Genedlaethol a'r Cyngor Amgueddfeydd yng Nghymru ddewis lleoliadau lle gellir treialu'r rhaglen bartneriaeth, a fydd yn dwyn yr enw "Cyfoeth Cymru Gyfan - Sharing the Treasures".

Ar 17 Mai, lansiais y cynllun peilot yn Amgueddfa Wrecsam, un o'r lleoliadau a fydd yn cynnal y cynllun peilot, ynghyd ag Amgueddfa Brycheiniog ac Oriel Ynys Môn. O ganlyniad, bydd y lleoliadau hyn yn gallu arddangos eitemau o gasgliadau'r Amgueddfa Genedlaethol na fyddai ar gael iddynt fel arall.

***Penodi i Gyrff Darlledu***

Yn ddiweddar, penodwyd 3 unigolyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon i gyrff darlledu, ac ymgynghorwyd â minnau ynghylch y penodiadau hyn.

Mae'r Athro Merfyn Jones o Brifysgol Bangor wedi'i benodi i gynrychioli Cymru ar y Comisiwn Safonau Darlledu, sef un o'r sefydliadau a fydd, yn y pen draw, yn dod yn rhan o OFCOM.

Mae'r Athro Jones wedi dilyn gyrfa mewn addysgu mewn prifysgolion. Bu'n ddarlithydd hanes modern ym Mhrifysgol Lerpwl, ym Mhrifysgol Paris, ac yn fwy diweddar ym Mhrifysgol Bangor, lle mae bellach yn Ddirprwy Ganghellor. Mae'n ddarlledwr profiadol sydd wedi cyflwyno neu ysgrifennu dros 20 o raglenni dogfen ar gyfer y teledu. Cafodd ei raglen 13 awr, 'History of Wales in the 20$^{th}$ Century', a ddarlledwyd ym 1999, wobr BAFTA Cymru am "Gyfraniad nodedig i hanes ar y teledu" yn 2000. Mae, felly, yn gynrychiolydd o fri i Gymru ar y corff hwn.

Hefyd, yn ddiweddar, mae Tessa Jowell wedi penderfynu cynnig ail dymor yn y swydd i 2 aelod o S4C, sef Nic Parry a Cefin Campbell. Mae'r naill aelod a'r llall wedi gwneud cyfraniad sylweddol i waith Awdurdod S4C yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Cynigiwyd tymor 2 flynedd iddynt yn y swydd.

Mae'n siwr eich bod wedi gweld yr hysbyseb ddiweddar am Lywodraethwr ar BBC Cymru yn lle Roger Jones. Bydd ei dymor ef yn y swydd yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn. Gobeithiaf y bydd yr hysbyseb yn denu nifer o ymgeiswyr da o Gymru. Hysbysebwyd lle gwag ar gyfer aelod o S4C ar yr un diwrnod.

***Llyfrau o Gymru yn Siopau Tesco***

Ym mis Mai, lansiwyd menter gan Tesco i werthu llyfrau Cymraeg yn ei siopau. Roeddwn yn falch iawn i gael ymweld â Tesco ar 8 Mai i'w cefnogi yn y fenter hon. Dechreuodd Tesco ar y fenter hon ar ôl cynnal trafodaethau gyda Chyngor Llyfrau Cymru, sydd wedi bod yn annog yr archfarchnad i werthu llyfrau o Gymru. Mae'r fenter yn cynnwys teitlau Cymraeg a Saesneg o Gymru, ac mae'n fwriad gan Tesco ehangu'r fenter. Roedd hyn yn unol ag un o argymhellion y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar gyhoeddi o dan gadeiryddiaeth Delyth Evans, a bydd yn fodd i ddenu mwy i ddarllen llyfrau o Gymru.

***Y Cynllun Iaith Gymraeg***

Lansiwyd Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru at ddibenion ymgynghori ar 13 Mai. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 5 Gorffennaf, a disgwylir cymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn yr hydref. Er mai cynllun ymgynghorol ydyw ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r mesurau sydd ynddo yn cael eu rhoi ar waith eisoes ar draws Llywodraeth y Cynulliad. Ystyriwyd drafftiau cynharach gan is-grwp o'r Pwyllgor, a chan y Pwyllgor llawn ar 19 Gorffennaf y llynedd. Mae'r Cynllun drafft ar wefan y Cynulliad, a byddwn yn croesawu sylwadau aelodau'r Pwyllgor arno ar unrhyw adeg cyn diwedd y cyfnod ymgynghori.

***Y Mesur Cyfathrebu***

Cyhoeddwyd y Mesur Cyfathrebu ar 6 Mai am gyfnod ymgynghori o 3 mis. Roeddwn yn teimlo ei fod yn fuddiol cael cynrychiolwyr o'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon a'r Adran Diwydiant a Masnach yn ein cyfarfod diwethaf. Rwyf hefyd wedi trafod y Mesur gyda'r darlledwyr. Rwyf wedi ysgrifennu at Tessa Jowell a Patricia Hewitt er mwyn cyflwyno ymateb cychwynnol i'r Mesur, ac wrth reswm, rwyf wedi ategu'r pwyntiau ynghylch cynrychiolaeth ar OFCOM. Rwyf hefyd wedi gofyn i ymrwymiadau penodol, megis presenoldeb i OFCOM yn Nghymru, fod yn rhan o'r Mesur. Rwyf yn hyderus y byddwn mewn sefyllfa i gyflwyno ymateb cadarn a deallus i'r Mesur ar ôl ei ystyried ymhellach, ac ar ôl y Cyfarfod Llawn ddechrau mis Gorffennaf.

***Is-ddeddfwriaeth***

Roedd yn bleser cael cyflwyno fy ail ddarn o ddeddfwriaeth o dan Adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg ger bron y Cynulliad ar 28 Mai. Roedd yn ychwanegu 17 o gyrff at y rhestr o'r rheini y mae'n ofynnol iddynt gyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg i'r Bwrdd. Mae gwaith da wedi'i wneud eisoes o ran ymestyn egwyddor Deddf yr Iaith Gymraeg ar draws y sector cyhoeddus, ond mae mwy eto i'w wneud. Byddaf yn dod ag adroddiad arall ar y mater hwn ger bron y Pwyllgor cyn toriad yr haf.

***Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru***

Cefais gyfarfod â Chadeirydd Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar 22 Ebrill i drafod y sefyllfa bresennol a'u cais am gyllid oddi wrth y Cynulliad. Mae fy swyddogion dal wrthi'n cynnal trafodaethau manwl gyda'r Ardd Genedlaethol am y cynllun busnes ac am faterion eraill. Mae cyfarfodydd ar y cyd wedi'u cynnal gyda'r holl bartneriaid sy'n ei chyllido, a bwriedir cynnal mwy o gyfarfodydd yn y man. Roedd cynrychiolwyr yr Ardd yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn.

***Y Loteri***

Roeddwn yn bresennol yn y digwyddiad a gynhaliwyd gan Camelot yn Stadiwm y Mileniwm ar 15 Ebrill, ac roedd yn bleser cael dwyn sylw at lwyddiannau'r Loteri yng Nghymru hyd yn hyn. Roeddwn hefyd yn bresennol mewn digwyddiad a gynhaliwyd ar y cyd gan Ddosbarthwyr y Loteri yn Wrecsam ar 18 Ebrill. Nod yr achlysur hwn oedd codi ymwybyddiaeth o arian y Loteri a cheisio gwella ansawdd y ceisiadau a denu mwy ohonynt.

Rwyf innau, a'm swyddogion, yn dal wrthi'n cynllunio ar gyfer yr Adolygiad sydd ar fin cael ei gynnal o'r Loteri. Rydym yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n chware rhan lawn yn y broses. Rwyf yn gobeithio cyfarfod â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, a'r Gweinidogion cyfatebol o'r Alban a Gogledd Iwerddon ddechrau Mehefin er mwyn trafod yr Adolygiad.

***Fforwm Ymwybyddiaeth am Weithgareddau Awyr Agored***

Ar ôl i'r Fforwm gael ei lansio ar 18 Mawrth 2002, mae tri chyfarfod wedi'u cynnal ledled Cymru. Mae'r Fforwm wrthi'n paratoi ei adroddiad rhagarweiniol, ac rwyf yn disgwyl iddo ddod i law yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

***Gemau'r Ynysoedd***

Mae'r Gweinidog dros Gyllid a minnau wedi cytuno y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn rhoi £10,000 i Gyngor Sir Ynys Môn er mwyn cynnal astudiaeth dichonoldeb i weld faint o gefnogaeth y bydd ei hangen ac a oes angen uwchraddio unrhyw gyfleusterau. Rwyf wedi gofyn i swyddogion Llywodraeth y Cynulliad gael bod yn rhan o'r broses dendro y mae'r Cyngor yn ymgymryd â hi er mwyn sicrhau ein bod yn dal i fod yn bartner agos yn yr astudiaeth.

***Cynhadledd 'Spotlight on Sport'***

Ar 21 Mai, bûm yn cadeirio'r Gynhadledd 'Spotlight on Sport'. Trefnwyd y digwyddiad hwn gan Gyngor Chwaraeon Cymru ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Hamdden yr Awdurdodau Lleol. Roedd yn gyfle unigryw i arweinwyr gwleidyddol, i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac i reolwyr, gymryd rhan mewn dadl am chwaraeon.

***Cwpan Ryder 2010***

Mae'r partneriaid sy'n datblygu'r cais yn parhau i gyflawni'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r cais.

Sefydlwyd Pwyllgor Cyswllt Cwpan Ryder, sy'n cynnwys partneriaid yn y sector cyhoeddus ac yn y sector preifat (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bwrdd Croeso Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd, Undebau Golff Cymru a'r Celtic Manor), i gynorthwyo gyda'r gwaith hwn, a chyfarfu am y tro cyntaf ar 15 Mai. Mae partneriaid y sector cyhoeddus yn dal i weithio i greu endid ar y cyd i gyflawni rhai o ymrwymiadau penodol y cais e.e. trefnu'r digwyddiadau ar gyfer pobl hyn a menywod, denu noddwyr etc. Bydd Awdurdod Datblygu Cymru/Cyngor Chwaraeon Cymru/Bwrdd Croeso Cymru yn parhau i weithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar bosibiliadau'r achlysur i'r economi ac i dwristiaeth, ac o ran datblygu golff.

***Y Cabinet Chwaraeon***

Mae'r paratoadau ar gyfer y cyfarfod o'r Cabinet Chwaraeon ar 18 Mehefin yn mynd rhagddynt yn dda. Bydd Gweinidogion Chwaraeon y pedair gwlad ynghyd â Chadeiryddion y pum Cyngor Chwaraeon yn cymryd rhan. Cynhelir y cyfarfod yn y Ganolfan Athletau dan Do yn Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd.

***Strategaeth Digwyddiadau Mawr***

Yn y ddogfen 'Cymru Greadigol', nodir fy ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Digwyddiadau Mawr i Gymru. Mae Is-bwyllgor y Cabinet ar Gymru yn y Byd wedi trafod y mater hwn, ac ar y cyd â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, byddaf yn bwrw ati â'r ymrwymiad hwn.

***Prifddinas Diwylliant - Caerdydd 2008***

Mae'n bleser cael dweud bod y Gweinidog dros Gyllid wedi cytuno i roi arian cyfatebol, ar y cyd â Chyngor Sir Caerdydd, ar gyfer costau rhedeg tîm cais Caerdydd ar gyfer 2002 / 2003.

Caiff y cyllid hwn ei adolygu pan gyhoeddir yn yr hydref pa ddinasoedd sydd ar y rhestr fer.

***Lansio'r Cynllun Cyllido Amrywiaeth Ddiwylliannol***

Lansiais Gynllun Amrywiaeth Ddiwylliannol Cyngor Celfyddydau Cymru ar 24 Mai yn Sefydliad y Glowyr yng Nghoed-duon i ddathlu Blwyddyn Amrywiaeth Ddiwylliannol yn y celfyddydau ar draws Cymru a'r DU a fydd yn dechrau ym mis Mehefin 2002. Mae'r cynllun hefyd yn golygu y gellir rhoi Strategaeth a Chynllun Gweithredu Cyngor Celfyddydau Cymru ar Amrywiaeth Ddiwylliannol (2000) ar waith ar draws y celfyddydau yng Nghymru, ynghyd â sicrhau bod mwy o bobl ddu a phobl o'r lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru yn mynd i ddigwyddiadau celfyddydol ac yn cymryd rhan ynddynt. Bydd y cynllun hefyd yn hybu gwaith ac yn rhoi mwy o gyfleoedd hyfforddi i bobl ddu a phobl o'r lleiafrifoedd ethnig yn y celfyddydau yng Nghymru, a bydd yn hyrwyddo egwyddorion a manteision amrywiaeth ddiwylliannol a chydraddoldeb hiliol mewn Cymru amlddiwylliannol ac amlieithog.

Fel y gwyddoch, mae Amrywiaeth Ddiwylliannol yn un o elfennau allweddol "Creative Future:Cymru Greadigol", ac rwyf yn falch iawn o'r gwaith da y mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'i wneud hyd yn hyn ar yr agwedd bwysig hon ar y celfyddydau yng Nghymru.

***Cymru'n Creu***

Cyfarfu'r consortiwm diwylliannol ar 22 Mai. Cafwyd adroddiadau am yr Amgueddfa Chwaraeon arfaethedig i Gymru, a chan y grwp sy'n datblygu diwylliant Cymru ar-lein. Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n arwain y grwp hwn.

Un o'r meysydd trafod allweddol oedd datblygu rôl Cymru'n Creu o ran rhoi Cymru Greadigol ar waith. Sefydlwyd Pwyllgorau Llywio i lunio rhaglenni manwl ar gyfer pob un o gynlluniau gweithredu'r strategaeth.

***Creative Future – Cymru Greadigol***

Byddaf yn teithio i Stiwdios Steer ger Rhydaman yfory er mwyn lansio'r Strategaeth Ddiwylliant yn y Gorllewin. Mae'r stiwdios, sy'n annog pobl ifanc i greu cerddoriaeth, yn lleoliad arbennig o addas ar gyfer yr achlysur hwn. Rhoddwyd sylw yn yr achlysuron lansio eraill i gelfyddydau cymunedol ac i'r celfyddydau gweledol, ac rwyf yn bwriadu cynnal achlysur lansio arall ar thema benodol yn y dyfodol agos.

***Canolfan Mileniwm Cymru***

Mae'r gwaith ar Ganolfan Mileniwm Cymru'n mynd rhagddo'n dda, gan gadw at yr amserlen a'r gyllideb. Mae'r gwaith o osod y pileri dur wedi dechrau. Yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Diwylliant a gynhaliwyd ar 1 Mai , gwnaed cais gan Mr Dafydd Wigley i'r perwyl y dylai adroddiad y Gweinidog yn y dyfodol gynnwys cyfraniad ar gynlluniau Canolfan Mileniwm Cymru i weithio gyda lleoliadau eraill yng Nghymru. Er ei bod yn rhy gynnar i fynd ati i lunio adroddiad o'r fath ar hyn o bryd, byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael gwybodaeth reolaidd am Ganolfan Mileniwm Cymru, gan gynnwys adroddiadau ar sut yr eir ati i ddefnyddio'r £2m a roddwyd i'r celfyddydau y tu allan i Gaerdydd.

***Strategaeth 5 Mlynedd Cyngor y Celfyddydau ar Ddatblygu'r Celfyddydau***

Mae'r strategaeth hon yn gydnaws â'r strwythur a'r cynlluniau a geir yn Creative Future : Cymru Greadigol. Dogfen ymgynghori yw'r ddogfen hon, a bwriedir llunio'r fersiwn terfynol ym mis Gorffennaf.

**YMWELIADAU RHWNG 17 EBRILL 2002 A 28 MAI 2002**

***Mis Ebrill***

Gwyl Lenyddiaeth Agored y Bae Yr Eglwys Norwyaidd

Annerch Digwyddiad ar y cyd gan Wrecsam

Ddosbarthwyr y Loteri

Cyfarfod â Theuluoedd y Cynllun Twf Dinbych

Hyrwyddo'r Strategaeth Ddiwylliant yn Oriel Mostyn Llandudno

Ymweld â'r Hen Lys Biwmares

Gweld 'Franco's Bastard' Canolfan Gelfyddydau

Chapter

Cystadleuaeth Rygbi o dan 14 Oed Pont-y-pwl

***Mis Mai***

Annerch Cynhadledd Uned Ymchwil Caerdydd

Economi Cymru

Gwobrau Chwaraeon Blynyddol Athrofa Neuadd y Ddinas

Chwaraeon Cymru

Arddangosfa Agored o Waith gan Ernest Zobole Prifysgol Morgannwg

a Robert Thomas

Cyfarfod â Gweinidog Chwaraeon Ciwba Gerddi Sophia

Taith o amgylch y Cyfleusterau Criced Gerddi Sophia

Gêm Derfynol Cwpan y Gymdeithas Bêl-droed Stadiwm y Mileniwm

Lansio Menter Llyfrau Cymraeg Tesco Croes Cwrlwys

Lansio Arddangosfa Haf Taith Erwood, ger

Myrddin Llanfair-ym-Muallt

Perfformiad o 'Rough Guide to Aberhonddu

Cymru'

Ymweliad/Anerchiad - Amgueddfa Pont-y-pwl Pont-y-pwl

(rhan o fis Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru)

Cyfarfod/Cinio gydag Andrew Ramsey o'r Stiwdios y BBC,

Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon Llandaf

Cinio Canolfan Ewrop ar gyfer Diwylliannau Llangollen

Traddodiadol a Rhanbarthol (ECTARTC)

Lansio Cytundeb Partneriaeth Amgueddfeydd Wrecsam

ac Orielau Cenedlaethol Cymru/Y Cyngor

Amgueddfeydd yng Nghymru

Lansio Hen Garchar Rhuthun yn swyddogol Rhuthun

Agor Arddangosfa ‘On Home Ground’ Llandudno

Gwobrau Celfyddydau a Busnes Neuadd Dewi Sant

Agor a Chadeirio Seminar Cenedlaethol Neuadd y Ddinas

ar Chwaraeon

Cinio'r Gynhadledd Chwaraeon a Hamdden Castell Caerdydd

Cyfarfod Cymru'n Creu Swyddfeydd Cwmni

Opera Cenedlaethol

Cymru, Heol Ioan

Annerch Cyfarfod ar Amrywiaeth Ddiwylliannol Coed-duon

Rownd Derfynol Cwpan Heineken Stadiwm y Mileniwm

| | |
|---|---|
| Gwobrau BAFTA Arena Ryngwladol | |
| | Caerdydd |
| Gwestai - 'Holy Island Discs' Canolfan Ucheldre, | |
| | Caergybi |
| Cynnal Cinio ar gyfer Aelodau'r Gynghrair Arabaidd Gwesty Dewi Sant | |